Teithio i'r ysgol

Isod ceir llawer o wybodaeth, mewn amrywiaeth o ffurfiau, yn ymwneud â sut mae disgyblion yn teithio i'r ysgol yn y DU. Daeth y data o ddwy ffynhonnell, yr Adran Drafnidiaeth (drwy'r Swyddfa Ystadegau Gwladol) a'r prosiect CensusAtSchool. Edrychwch drwy'r pedwar siart a'r tablau yn ofalus a sicrhewch eich bod yn deall pa wybodaeth maent yn ei roi i chi, yna ceisiwch ateb y cwestiynau.

Prydain Fawr: Munudau a Dreulir ar Gyfartaledd yn Cyrraedd yr Ysgol		
	5-10 oed	11-16 oed
	1999-01	1999-01
Bwrdeistrefi Llundain	26	43
Ardaloedd adeiledig metropolitan	23	29
Ardal drefol fawr dros 250,000	19	29
Ardal drefol ganolig rhwng 25,000 a 250,000	20	29
Ardal drefol fach 3,000 i 25,000	20	27
Ardal drefol fach/ganolig 10,000 i 25,000	19	29
Ardal drefol fach 3,000 i 10,000	20	25
Ardal wledig	18	28
Ffynhonnell: Arolwg Teithio Cenedlaethol, yr Adran Drafnidiaeth		
Swyddfa Ystadegau Gwladol http://www.statistics.gov.uk/STATBASE/ssdataset.asp?vink=6522		

O ba ardal y mae'n cymryd yr amser hiraf i deithio i'r ysgol? Allwch chi feddwl am reswm dros hyn? A yw'n wir ei bod yn cymryd mwy o amser i fynd i'r ysgol wrth i chi fynd yn hŷn? Ysgrifennwch ychydig o frawddegau i argyhoeddi rhywun. Pam mae'n cymryd ychydig yn llai o amser mewn ardaloedd gwledig yn eich barn chi?

Amser Teithio a Phellter i'r Ysgol ar Gyfartaledd			
Amser Teithio	Cymedrig	15	
(mewn munudau)	Modd	10	
	Canolrif	10	
	Amrediad	90	
			Amlder
Pellter Teithio	1	Llai na 1km	18595
	2	1 i lai na 2km	11969
	3	2 i lai na 3km	6959
	4	3 i lai na 5km	7024
	5	5 i lai na 10km	6994
	6	10 i lai na 30km	4845
	7	30km neu drosodd	1202
Ffynhonnell: Prosiect CensusAtSchool yn www.censusatschool.ntu.ac.uk			



Holodd y prosiect CensusAtSchool nifer o ddisgyblion yng Nghymru a Lloegr. I gael mwy o wybodaeth gweler www.censusatschool.ntu.ac.uk. Mae'r tabl gyferbyn yn dangos rhywfaint o'r canlyniadau ar gyfer teithio i'r ysgol.
Sut mae'r wybodaeth am amseroedd teithio yn cymharu â'r tabl uchod? Pam y gallai fod gwahaniaethau yn eich barn chi?
Edrychwch ar y pellteroedd a gaiff eu teithio i fynd i'r ysgol. A yw'r canlyniadau fel y byddech yn eu disgwyl? Sut y credwch chi mae pobl sy'n teithio mwy na 30km yn cyrraedd yr ysgol? Pam eu bod yn teithio mor bell yn eich barn chi?

Teithio i'r ysgol par.

Prydain Fawr: Dulliau o Gyrraedd yr Ysgol								
	Disgyblion sy'n mynd i'r Ysgol	Oedran 5 i 16 (Canran)				Hyd ar gyfartaledd (milltiroedd)	
		Cerdded	Car	Bws	Arall	5 i 10 oed	11 i 16 oed
Rhanbarthau	Prydain Fawr (cyfanswm)	48	29	18	4	1.4	2.9
	Gogledd Ddwyrain Lloegr	53	22	23	2	0.8	3.0
	Gogledd Orllewin Lloegr	43	31	22	3	1.4	2.5
	Swydd Efrog a'r Humber	58	25	15	2	1.0	2.4
	Dwyrain Canolbarth Lloegr	45	27	25	3	1.4	3.0
	Gorllewin Canolbarth Lloegr	56	27	17	-	1.7	2.3
	Dwyrain Lloegr	44	36	12	8	1.7	3.4
	Llundain	50	22	20	8	1.1	3.2
	De Ddwyrain Lloegr	45	37	13	4	1.6	3.2
	De Orllewin Lloegr	41	34	18	7	1.9	3.8
Ffynhonnell:	Arolwg Teithio Cenedlaethol, yr Adran Drafnidiaeth						
	Swyddfa Ystadegau Gwladol http://www.statistics.gov.uk/STATBASE/ssdataset.asp?vink=6034						

Sylwch ar y pellter teithio i'r ysgol ar gyfartaledd yn y tabl hwn. Er mwyn gwneud cymhariaeth effeithiol â'r tabl blaenorol, beth fyddai'n rhaid i chi ei wneud gyda'r data? Ystyriwch eich oedran. Pa ranbarth o'r DU fyddech chi'n byw ynddo i deithio'r pellter lleiaf? Ymddengys fod disgyblion yn teithio'n bellach wrth iddynt fynd yn hŷn. Pam bod hyn yn wir yn eich barn chi?



Mae'r siart cylch hwn yn dangos y dulliau y mae disgyblion sy'n cymryd rhan yn y prosiect CensusAtSchool yn eu defnyddio i deithio i'r ysgol. Mae'r tabl uchod yn rhoi'r wybodaeth a gasglwyd gan yr Adran Trafnidiaeth. Pa wahaniaethau/debygrwydd allwch chi eu gweld yn y data? Fyddai'r data'n edrych yn wahanol os byddai wedi'i wahanu yn ôl grwpiau oedran yn eich barn chi? Os felly, pam? Beth allai'r 'Arall' ei gynrychioli yn y tabl a'r siart yn eich barn chi?

Ystyriwch yr holl wybodaeth rydych wedi'i darganfod hyd yma. Ysgrifennwch adroddiad ar sut mae disgyblion yn y DU yn teithio i'r ysgol. Ystyriwch y ffynonellau a ddefnyddir yma. Sut mae'r data yn cymharu â'ch ysgol chi? Beth fyddai'r data ar gyfer disgyblion 70 mlynedd yn ôl? Sut mae'r data'n gwahaniaethu ar gyfer disgyblion mewn gwledydd gwahanol? Defnyddiwch y rhyngrwyd i'ch helpu i archwilio.